| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 1 MAWRTH 2012 |
| **TEITL** | RHEOLI GWYLANOD MOR |
| **PWRPAS** | YMATEB I RYBUDD O GYNNIG |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y CYNGHORYDD STEPHEN CHURCHMAN, ARWEINYDD PORTFFOLIO |

**1. CEFNDIR**

1.1 Cyflwynwyd rhybudd o gynnig ar y mater yma i'r Cyngor ar 20 Hydref, 2011. Penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r cynnig i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio ar Reoli Gwylanod Mor i Bwyllgor yr Amgylchedd ar 1 Rhagfyr, 2011.

**2. CASGLIADAU PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD**

2.1 Hysbyswyd y Pwyllgor bod cwynion wedi eu derbyn gan fusnesau ac ymwelwyr ynglyn a gwylanod yng Nghaernarfon a bod y Cyngor yn gweithredu rhaglen waith ymarferol o osod biniau pwrpasol i rwystro gwylanod rhag pigo bwyd ohonynt a gosod arwyddion i rybuddio'r cyhoedd i beidio bwydo gwylanod.

2.2 Mae llwyddiant y rhaglen yn cael ei fonitro drwy'r asesiadau a wneir ar gyflwr strydoedd a ffigyrau cwynion a dderbynnir ar lanweithdra. Mae gwaith hefyd ar y gweill i bwysleisio wrth fusnesau y pwysigrwydd o annog cwsmeriaid i beidio bwydo gwylanod ac i lanhau byrddau yn rheolaidd.

2.3 Clywyd fod gwylanod yn cael eu gwarchod dan ddeddfwriaeth a bod hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gymeryd camau i'w rheoli.

2.4 Ystyriodd y Pwyllgor fesurau a ellid eu defnyddio i reoli gwylanod a nodwyd mai'r mesur mwyaf effeithiol ar gyfer eu rheoli mewn trefi yw lleihau faint o fwyd sydd ar gael iddynt drwy:

- Annog pobl i beidio a bwydo'r adar;
- Atgoffa'r cyhoedd a busnesau i beidio gorlenwi eu biniau;
- Sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei roi allan mewn derbynnydd addas ac mewn modd priodol.

2.5 Ystyriodd y Pwyllgor ddulliau gweithredu megis tynnu wyau o'r nythod ac iro wyau. Mae gweithrediad o'r fath yn cael ei chymhlethu gan faterion cyfreithiol, adnoddau ac iechyd a diogelwch. Mae tystiolaeth yn dangos mae effaith camau o'r fath yw i greu lleihad lleol yn y boblogaeth gwylanod tra mae'r camau yn cael eu cymeryd. Roedd y Pwyllgor yn ystyried atebion tymor byr yn anfoddhaol.

2.6 Nodwyd nad oes dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli niferodd gwylanod mor ond y gall y Cyngor ddylanwadau ar y sefyllfa trwy ystyried y mater wrth siapio a gweithredu eu rhaglenni gwaith yn enwedig o ran Gofal Stryd a chasglu gwastraff.

2.7 Ystyriodd y Pwyllgor beth mae'r Cyngor yn ei wneud yn awr a beth yn ychwanegol mae nifer fechan iawn o gynghorau eraill yn ei wneud o ran rheoli gwylanod. Ystyriwyd ymhellach yr opsiynau sydd ar gael i'r awdurdod ynghyd a goblygiadau ariannol, staff a chyfreithiol gweithredu yr opsiynau hynny.

2.8 Nodwyd bod oblygiadau ariannol ehangu ar yr ymdrech bresennol yn sylweddol.

## 3. CASGLIADAU

3.1 Cydnabu'r Pwyllgor bod gwylanod yn creu niwsans achlysurol.

3.2 Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yr Awdurdod yn ymdrechu i ddelio a'r broblem sylfaenol sef argaeledd bwyd i wylanod, trwy ei raglenni gwaith presennol a bod ymdrech yn cael ei wneud i gryfhau'r rhaglenni yma trwy godi ymwybyddiaeth a chydweithio gyda busnesau.

3.3 Nodwyd bod opsiynau ar gael i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth presennol ond bod goblygiadau ariannol sylweddol i ehangu'r ddarpariaeth ar wasanaeth nad yw yn statudol.

3.4 Penderfynodd y Pwyllgor i argymell glynu at y drefn a weithredir gan y Cyngor ar hyn o bryd ac i barhau i ganolbwyntio ymdrechion ar godi ymwybyddiaeth a glanweithdra strydoedd.